

# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Mawrth 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/5568>

## 196

---

### Enwebiadau ar gyfer cadeirydd pwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gwahoddodd y Llywydd enwebiadau ar gyfer cadeirydd y pwyllgor canlynol yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F.

(i) **Y Pwyllgor Deisebau – Ceidwadwyr**

Enwebwyd Janet Finch–Saunders gan David Melding.

Enwebwyd Mark Isherwood gan Russell George.

Gan fod dau enwebiad, cyfeiriodd y Llywydd yr enwebiadau ar gyfer pleidlais gudd yn unol â Rheol Sefydlog 17.21.

### Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 13.32

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar Brexit yn sgil y ffaith bod Cytundeb Ymadael yr UE–DU wedi cael ei gwrthod neithiwr yn Nhŷ'r Cyffredin?

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.49



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 8 a 10. Ni ofynnwyd cwestiwn 9. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## **2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Dechreuodd yr eitem am 14.46

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 3 gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## **3 Cwestiynau Amserol**

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## **4 Datganiadau 90 Eiliad**

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau 90 Eiliad.

## **5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Effaith Brexit ar y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r Gymraeg**

Dechreuodd yr eitem am 15.37

### **Datganiad y Llywydd: Ethol Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau**

Dechreuodd yr eitem am 16.05

Cyhoeddodd y Llywydd ganlyniad etholiad Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau::

#### **Y Pwyllgor Deisebau**

<b>Janet Finch–Saunders</b>	<b>Mark Isherwood</b>	<b>Ymatal</b>
25	14	1

Cyhoeddodd y Llywydd bod Janet Finch–Saunders AC wedi ei hethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

## PO Statement: Election of Petitions Committee Chair

The item started at 16.05

The Presiding Officer announced the result of the election of the Petitions Committee Chair:

### Petitions Committee

Janet Finch-Saunders	Mark Isherwood	Abstentions
25	14	1

The Presiding Officer declared Janet Finch-Saunders AM elected as Chair of the Petitions Committee.

## 6 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.06

Derbyniwyd gwelliant 22, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 23, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 24, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 25, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 26, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 44, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 45, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 27, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 28, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 29, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 30, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 31, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 32, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 33, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 34, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 35, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 36, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 49:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
0	0	47	47

Gwrthodwyd gwelliant 49.

Derbyniwyd gwelliant 37, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 2, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 3, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 4, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 5, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 38, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 6, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 7, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 8, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 9, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 10, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Tynnwyd gwelliant 46 yn ôl

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 47:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
11	0	36	47

Gwrthodwyd gwelliant 47.

Derbyniwyd gwelliant 11, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 48:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
11	0	36	47

Gwrthodwyd gwelliant 48.

Derbyniwyd gwelliant 12, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 13, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 14, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 15, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 16, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 17, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 18, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 19, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 20, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 39, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 40, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 41, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 42, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 43, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 21, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Cyfoeth Naturiol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.13

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM6989 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i uno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru drwy ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2013.
2. Yn cydnabod gwaith caled y staff rheng flaen yn y sefydliad ond yn deall eu hanfodlonrwydd a'u diffyg hyder yn y penderfyniadau a wneir gan uwch reolwyr, fel y caiff ei fynegi'n rheolaidd mewn arolygon staff ers sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru.
3. Yn gresynu at fethiant systematig Cyfoeth Naturiol Cymru o ran pobl Cymru drwy nifer o sgandalau proffil uchel, gan gynnwys:
  - a) diffygion difrifol wrth ymdrin â chontractau pren, i'r graddau bod yr archwilwyr, Grant Thornton, wedi dweud eu bod mor ddrwg eu bod yn "dwysáu'r amlygiad i'r risg o dwyll";
  - b) 'cymhwyso' cyfrifon y sefydliad gan Swyddfa Archwilio Cymru am dair blynedd yn olynol, sy'n awgrymu bod ansicrwydd ynghylch a oedd y sefydliad wedi gweithredu o fewn y rheolau;
  - c) y dull anghyson y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain wrth benderfynu ymyrryd ar faterion o ddiddordeb cyhoeddus megis saethu ar dir cyhoeddus a dympio mwd niwclear.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gychwyn adolygiad/ymchwiliad annibynnol i fethiannau'r sefydliad ac ymchwilio i gynigion amgen ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
13	0	34	47

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi yn eu lle bwyntiau newydd:

Yn nodi casgliadau ac argymhellion yr adroddiadau gan:

- Ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i adroddiad blynyddol a chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017–2018 – Tachwedd 2018;
- Grant Thornton – Cyfoeth Naturiol Cymru – Llywodraethu'r Gwaith o Werthu Pren – Chwefror 2019.

Yn croesawu penodi prif weithredwr a chadeirydd dros dro newydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a'u hymrwymiad i weithredu argymhellion y ddau adroddiad a gwella'r modd y caiff Cyfoeth Naturiol Cymru ei reoli a'i lywodraethu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	0	21	48

Derbyniwyd gwelliant 1.

Gan fod Gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.

Gwelliant 4 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru adnoddau priodol i gyflawni ei holl ddyletswyddau yn ddigonol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
21	0	27	48

Gwrthodwyd gwelliant 4.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

NDM6989 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i uno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru drwy ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2013.
2. Yn cydnabod gwaith caled y staff rheng flaen yn y sefydliad ond yn deall eu hanfodlonrwydd a'u diffyg hyder yn y penderfyniadau a wneir gan uwch reolwyr, fel y caiff ei fynegi'n rheolaidd mewn arolygon staff ers sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru.
3. Yn nodi casgliadau ac argymhellion yr adroddiadau gan:
  - a) Ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i adroddiad blynyddol a chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017–2018 – Tachwedd 2018;
  - b) Grant Thornton – Cyfoeth Naturiol Cymru – Llywodraethu'r Gwaith o Werthu Pren – Chwefror 2019.
4. Yn croesawu penodi prif weithredwr a chadeirydd dros dro newydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a'u hymrwymiad i weithredu argymhellion y ddau adroddiad a gwella'r modd y caiff Cyfoeth Naturiol Cymru ei reoli a'i lywodraethu.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	0	21	48

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.



## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.04

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.07

**NDM6988 [Mike Hedges \(Dwyrain Abertawe\)](#)**

Pwysigrwydd prentisiaethau: Pam mae angen pobl arnom sydd â chymwysterau crefftau.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.26

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2019**